# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 26 Gorffennaf 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**David Melding (Canol De Cymru):** Pa fesurau sydd ar waith i ddenu fwy o dwristiaeth i drefi a dinasoedd Cymru, yn wyneb y ffaith mai dim ond 15% o ymwelwyr sy'n ymweld ag ardaloedd trefol ar hyn o bryd? (WAQ50250)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Atebaf hwn fel y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Caiff Cymru ei rhannu'n dair Ardal Marchnata ar ddeg gyda Croeso Cymru, awdurdodau lleol a'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol oll yn cydweithio i gynhyrchu llyfrynnau twristiaeth, amrywiaeth eang o ddeunyddiau marchnata a gwybodaeth gwefan sy'n hyrwyddo trefi a dinasoedd yn eu hardaloedd.

Mae Croeso Cymru hefyd yn helpu i ddenu prif ddigwyddiadau i drefi a dinasoedd allweddol gydag ymwelwyr yn gwario dros £11 miliwn mewn digwyddiadau a ariannwyd gan Croeso Cymru yn 2006. Mae Twristiaeth Busnes yn sector arall y mae Croeso Cymru yn ei hyrwyddo a'i gefnogi; a dengys adenillion ar fuddsoddiad o'r fath i tua £42 miliwn amcangyfrifedig o wariant ychwanegol o ymgyrchoedd twristiaeth busnes Croeso Cymru gael ei greu yn 2006.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y byddai trefniadau gwarchod tâl yn cael eu gweithredu yn yr Agenda ar gyfer Newid er mwyn sicrhau na fyddai cyflogau staff yn is ar ôl cymhathu? (WAQ50254)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Pan fo gwerth cyfunol taliadau cyn cymhathu yn fwy na gwerth cyfunol taliadau ar ôl cymhathu, caiff lefel flaenorol y cyflog ei ddiogelu. Mae'r trefniadau diogelu hyn yn berthnasol i werth cyfunol y taliadau cyn cymhathu ac ar ôl cymhathu, nid i elfennau cyflog unigol, ac eithrio'r darpariaethau o ran cadw trefniadau ar alwad.

Daw'r cyfnod diogelu i ben pan fydd cyfanswm nifer y taliadau o dan y system newydd yn fwy na lefel y cyflog a ddiogelir, neu pan fydd y person a ddiogelir yn newid swydd o'i wirfodd, neu ar 31 Mawrth 2011 pan gyflwynir hyn yn genedlaethol i staff.

Caiff sgiliau, gwybodaeth a rôl staff a gaiff eu diogelu eu hadolygu cyn gynted â phosibl yn ystod y cyfnod diogelu i gadarnhau p'un a ellid eu symud i swydd sydd â phwysoliad uwch neu gynnig datblygiad a hyfforddiant i'w gwneud yn addas ar gyfer swydd sydd â phwysoliad uwch.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o apeliadau a wnaed i'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes ynghylch pryderon dros newidiadau mewn tâl yn dilyn cymhathu'r Agenda ar gyfer Newid, ac a wnaiff hi ddatgan faint sy'n disgwyl am adolygiad? (WAQ50255)

**Edwina Hart:** Ar 3 Gorffennaf 2007 pan goladwyd adroddiadau statws yr ymddiriedolaeth roedd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes wedi derbyn 160 o geisiadau adolygu gan Fyrddau Iechyd Lleol. Roedd hyn yn cyfrif am 11% o'r staff a gafodd eu cymhathu. Y lefel cais adolygu ar gyfer Cymru yw 18% ar hyn o bryd.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Ar gyfer pob corff iechyd, a wnaiff y Gweinidog ddatgan canran y staff nad ydynt wedi cymhathu â'r Agenda ar gyfer Newid yn (i) Medi 2005 (ii) Mehefin 2007? (WAQ50256)

**Edwina Hart:** Tybiaf eich bod yn cyfeirio at sefydliadau GIG Cymru wrth gyfeirio at 'bob corff Iechyd'. O fis Medi 2005 roedd 83.63% o aelodau staff ledled Cymru i'w cymhathu. Ym mis Mehefin 2007 mae 10.47% o aelodau staff ledled Cymru eto i'w cymhathu.